# RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 5) (CYMRU) (DIWYGIO) 2021, RHAN 3A

## ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### Y Cyd-destun

Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i berchennog ysgol neu Sefydliad Addysg Bellach (SAB), yn unol â'r eithriadau a nodir yn y Rheoliadau, beidio â gadael i ddisgyblion ddod ar dir yr ysgol, na gadael i fyfyrwyr ddod ar dir SAB, yng Nghymru o'r diwrnod pan ddaw'r Rheoliadau i rym hyd 21 Chwefror 2021. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n agored i niwed nac i blant gweithwyr hanfodol, nac i'r dysgwyr hynny sy'n sefyll asesiadau neu arholiadau.

Gwneir y Rheoliadau mewn ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd yn sgil achosion a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn Covid-19 neu'r coronafeirws.

Cyngor Prif Swyddog Meddygol Cymru yw bod angen cymryd camau pellach i liniaru trosglwyddiad parhaus Covid-19 ac atal capasiti'r GIG yng Nghymru rhag bod o dan straen ac, o bosib, rhag cael ei lethu. Bwriedir i'r Rheoliadau hyn atal marwolaethau Covid-19 uniongyrchol a marwolaethau sy'n gysylltiedig â diffyg argaeledd gwasanaethau'r GIG yn sgil trosglwyddiad eang y firws mewn cymunedau.

Ar 4 Ionawr 2021, cytunodd pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU fod y DU bellach ar y lefel risg uchaf, sef Lefel 5 y Cydgyngor Bioddiogelwch. Yng ngoleuni'r penderfyniad hwnnw, cytunodd Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â CLlLC a Cholegau Cymru, y dylai'r holl ysgolion, colegau ac ysgolion annibynnol newid i ddysgu ar-lein.

Ar 8 Ionawr, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r dull hwn o weithredu yn parhau, ond y byddai'n cael ei gysoni â'r cylch adolygu teirwythnosol. Oni cheir gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion coronafeirws cyn yr adolygiad hwnnw ar 29 Ionawr, bydd ysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i gynnig darpariaeth ar-lein hyd ddiwedd hanner tymor mis Chwefror.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi sail gyfreithiol i'r penderfyniad hwnnw, ac i'r penderfyniad dilynol i gysoni hyn â'r adolygiad o'r cyfyngiadau cymdeithasol ehangach yng Nghymru.

Er ei bod hi'n anochel y ceir effeithiau ar hawliau plant, bydd rhywfaint o bosibilrwydd i liniaru'r effeithiau mwyaf sylweddol, yn enwedig i'r dysgwyr mwyaf agored i niwed, drwy roi mynediad iddynt i'r ysgol, ond ni fydd hi'n bosibl ymdrin â'r holl effeithiau anghymesur a negyddol. Byddwn yn parhau i oddef yr effeithiau negyddol hyn ar sail y risg i iechyd y cyhoedd.

Mae'r defnydd o ddulliau dysgu o bell ar ben y cyfnod clo estynedig, y cyfnod atal byr a chyfyngiadau lleol/cenedlaethol blaenorol yn lluosogi'r effeithiau negyddol. Beth bynnag fo'r dull gweithredu, bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth i hawliau plant yn y broses benderfynu.

Drwy gydol y pandemig, mae adborth gan ein rhanddeiliaid, rhieni a phlant a phobl ifanc eu hunain wedi tynnu sylw at ystod o faterion hawliau plant a gododd o ganlyniad i'r cyfnodau clo a'r cyfyngiadau. Hoffem ddysgu yn sgil y rhain a sicrhau, hyd y bo'n ymarferol bosibl, na chânt eu hailadrodd drwy'r cynnig i ddysgu o bell.

Mae'r egwyddorion cyffredinol a ganlyn wedi bod yn sail, a dylent barhau i fod yn sail i benderfynu sut yr ydym yn gweithredu drwy gydol y pandemig, pa lefel bynnag y mae Cymru arni ar y pryd. Yr egwyddorion allweddol yn gysylltiedig â'r Rheoliadau yw 1, 2, 6, 7, 10 ac 11.

### Egwyddorion cyffredinol

1. Dylai plant a phobl ifanc fod yn ddiogel, a chael eu gweld, eu clywed, eu meithrin a'u datblygu
2. Dylai plant allu mynd i'r ysgol a lleoliad gofal plant (gan gynnwys Dechrau'n Deg)
3. Dylai plant allu mynd allan i chwarae a gwneud ymarfer corff
4. Dylid caniatáu i blant iau, dan 12 oed, gymysgu'n rhydd
5. Dylai gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd barhau i weithredu a gallu cynnig gwasanaethau wyneb yn wyneb lle mae angen y plentyn/teulu yn cyfiawnhau hynny. Efallai y bydd angen cymorth ar deuluoedd dan anfantais i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein – gan gynnwys cyfarpar TG a/neu ‘data’.
6. Dylai plant ag anghenion ychwanegol gael yr asesiadau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt – gall hyn gynnwys swigen gefnogaeth ehangach ar gyfer teuluoedd/gwasanaethau er mwyn sicrhau na chaiff yr un teulu ei adael i ymdopi ar ei ben ei hun – gall olygu grŵp mwy yn mynd allan i wneud ymarfer corff i gefnogi'r plentyn
7. Ni ddylai'r un plentyn fynd heb fwyd.
8. Dylai fod cymorth i rieni ar gael drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys mamau/rhieni newydd
9. Dylid cynnal asesiadau o ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar fel mater o drefn (wyneb yn wyneb lle bo angen yn unol â mesurau diogelu rhag COVID-19) a rhoi ymyriadau ar waith (e.e. iaith a lleferydd, golwg a chlyw)
10. Dylid cyfathrebu ynghylch pob un o'r uchod yn glir, gan gynnwys â phlant a phobl ifanc
11. Os rhoddir cyfyngiadau lefel 4 ar waith yn y dyfodol gyda dysgu o bell yn elfen allweddol:
    - Dylid rhoi blaenoriaeth i blant agored i niwed drwy ddull gweithredu amlasiantaethol
    - Dylai fod cynllun cymorth ar waith ar gyfer plant ag anghenion dysgu penodol/ychwanegol
    - Dylid sicrhau bod gan blant gyfarpar TG a digon o ddata i'w galluogi i gymryd rhan mewn gwersi a chael gafael ar adnoddau addysgol ar-lein, yn ogystal â chysylltu â'u ffrindiau
    - Dylid cynyddu nifer y gwasanaethau trydydd sector, gwasanaethau mewn ysgolion a gwasanaethau iechyd meddwl ar-lein. Dylid gweithredu ar sail risg i

sicrhau bod y bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn parhau i gael eu cefnogi gan wasanaethau iechyd meddwl y GIG.

- Dylid cynnig cymorth ychwanegol i blant o deuluoedd nad Cymraeg/ Saesneg yw eu hiaith gyntaf, ochr yn ochr â'u rhieni
- Dylid atgoffa pawb i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn gwybod i ble y gallant droi am help neu i drafod pryderon.
- Dylid cyfathrebu â phlant a phobl ifanc mewn iaith gysurlon, hawdd ei deall, gan dawelu eu meddwl a rhoi eglurhad clir o'r hyn sy'n digwydd a pham

## Beth yw'r cynnig?

Rydym yn cynnig parhau â'r dull lle symudwyd yn ffurfiol i ddysgu o bell hyd 18 Ionawr, a rhoi hyn mewn grym drwy Reoliadau. Bydd y dull hwn o weithredu'n cael ei adolygu'n unol â'r adolygiad teirwythnosol o'r prif Reoliadau coronafeirws. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gynnal cyn 29 Ionawr.

Oni cheir gostyngiad sylweddol mewn achosion o'r coronafeirws cyn yr adolygiad, bydd ysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i gynnig darpariaeth ar-lein hyd ddiwedd hanner tymor mis Chwefror - mae plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, yn ogystal â'r dysgwyr hynny sy'n sefyll asesiadau neu arholiadau, yn eithriadau i hyn. Bwriedir cadw pob ysgol arbennig ar agor.

## Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc?

Bydd y newid ffurfiol i ddysgu o bell fwy na thebyg yn cael effaith negyddol ar y plant hynny:

- sydd heb y cyfleusterau, y gallu neu'r adnoddau i gyrchu darpariaeth dysgu o bell yn rheolaidd ac mewn modd strwythuredig;
- sy'n byw mewn tai gorlawn heb unrhyw le preifat neu bersonol;
- nad ydynt ond yn gallu cael rhywfaint o fynediad, os o gwbl, at fand-eang/y rhyngrwyd/darpariaeth ar-lein;
- sy'n byw mewn cartref lle nad yw Cymraeg/Saesneg yn iaith gyntaf;
- sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ond nad oes ganddynt aelodau o fewn y teulu sy'n siarad Cymraeg;
- sydd eisoes wedi profi nifer o episodau dysgu o bell oherwydd un neu fwy o gyfnodau hunanynysu;
- a oedd eisoes o bosib wedi colli tir yn ystod y cyfnod clo cyntaf/y cyfnodau clo byr, ac a oedd ond newydd ddechrau ennill tir eto;
- â chyflyrau iechyd meddwl neu bryderon a allai gael eu gwaethygu yn ystod cyfnod arall o ddysgu o bell;
- a allai fod yn teimlo wedi'u hynysu o gymdeithas.

Mae'r dull a gynigir yn ddull syml a chyfun - mae pobl ifanc wedi dweud eu bod yn ffafrio hyn, a'i bod yn gwneud hi'n haws iddynt ddeall. Tri phrif effaith y rheolau aros gartref yn ôl pobl ifanc (12-18 oed) oedd 'peidio gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%), 'peidio gallu

ymweld â pherthnasau' (59%) ac 'yr ysgol neu'r coleg yn cau' (42%) (*arolwg Y Coronafeirws a Fi* [1]).

Mae'r dull gweithredu a gynigir yn golygu na fydd plant a phobl ifanc yn gallu cwrdd â ffrindiau nac unigolion y tu allan i'w haelwyd onid ydynt yn blentyn sy'n agored i niwed, neu'n blentyn i weithiwr hanfodol, neu'n unigolyn ifanc agored i niwed sy'n mynychu'r coleg, a'u bod yn gallu mynychu'r ysgol neu'r coleg. Bydd hyn yn anodd i bobl ifanc, ac wrth ddysgu o bell, dylid cynnig cyfleoedd, os oes modd, i blant a phobl ifanc siarad y naill â'r llall a chyda'u hathro/hathrawes neu oedolyn arall yr ymddiriedir ynddo.

Mae'r dull gweithredu a gynigir yn ei gwneud hi'n bosibl darparu addysg a chyfleoedd dysgu i ddysgwyr o bell. Mae ysgolion a cholegau yn gwella'u darpariaeth o bell. Byddant yn cael cyfle i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc y maent yn pryderu amdanynt fwyaf. Ceir diffiniad y cytunwyd arno'n flaenorol â CCAC, fel y nodir isod: -

*Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gydweithio i nodi'r plant y mae eu hanghenion yn golygu, fel eithriad, y gallent fynychu'r ysgol. Wrth wneud hynny dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ystyried yr egwyddorion canlynol:*

- *rhaid inni sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel, yn cael eu gweld, eu clywed, eu meithrin a'u datblygu*
- *yn ystod y cyfnod clo hwn, ni fydd plant a phobl ifanc o flynyddoedd 9-13 yn cael mynychu'r ysgol er mwyn dysgu. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gydweithio i nodi'r rhai a fyddai'n elwa'n eithriadol ar gael mynediad i'r ysgol.*
- *dylai'r penderfyniad ystyried effaith unrhyw gyfyngiadau ar iechyd emosiynol, meddyliol a chorfforol y plentyn neu'r person ifanc, a datblygiad addysgol;*
- *dylai'r penderfyniad ystyried sut y gellid lliniaru risgiau peidio â mynychu'r ysgol drwy roi'r cymorth mwyaf priodol i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc*
- *dylai'r penderfyniad ystyried barn y plentyn neu'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr, fel y gellir deall a darparu eu hanghenion drwy'r cymorth mwyaf priodol;*
- *dylai plant a phobl ifanc gael eu categoreiddio yn ôl penderfyniadau am y risgiau a'r manteision, a chael eu rhoi yn nhrefn blaenoriaeth i dderbyn cymorth yn unol â hynny*
- *dylid rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am y penderfyniad*
- *dylai'r risgiau i blant a phobl ifanc gael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd ar sail amlasiantaethol.*

Mae'n hanfodol bod ysgolion yn parhau i ymgysylltu'n weithredol o bell â dysgwyr o bell os nad ydynt yn dod i mewn i'r ysgol, ac mae [*Canllawiau Dysgu*]() ar gael i gynorthwyo ysgolion a lleoliadau yn hynny o beth.

[1] *Cynhaliwyd arolwg Y Coronafeirws a fi* am gyfnod o bythefnos ym mis Mai (ddeufis ar ôl cychwyn y cyfnod clo cyntaf) – cafwyd mwy na 23,700 o ymatebion gan blant a phobl ifanc 3-18 oed. Arolwg ar-lein ydoedd yn bennaf, gyda rhai galwadau ffôn er mwyn sicrhau y gallai grwpiau anos eu cyrraedd gymryd rhan – dylid nodi nad oedd yn arolwg cynrychioliadol, ond mae'n darparu sylfaen o ymatebion y gallwn gyfeirio ati. Yn ôl UNICEF, nid oes yr un llywodraeth arall wedi cynnal unrhyw beth tebyg.

Mae *canllawiau ar gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais* wedi'u cyhoeddi a gallent helpu i nodi a chefnogi dysgwyr a allai elwa ar gymorth ychwanegol.

Dylai Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) hefyd ddilyn yr egwyddorion uchod.

### Dyma erthyglau allweddol a ddefnyddir yn y broses benderfynu

*Erthygl 6*: Mae gan bob plentyn **hawl i fyw**. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu’n iach, yn bwysig yma.

- Mae'r hawl i fyw yn golygu mwy na chadw'n ddiogel rhag y feirws. Mae'n ymwneud â datblygu'n gymdeithasol, yn emosiynol, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn ysbrydol.
- Mae'r gallu i chwarae a gwneud ymarfer corff yn hanfodol i ddatblygiad corfforol plentyn a'i iechyd meddwl a'i les.

Yn rhan o gyfyngiadau Lefel 4, mae gwasanaethau wedi symud i gael eu darparu ar-lein ac yn rhithiol, gyda chymorth wyneb yn wyneb wedi'i gyfyngu i sefyllfaoedd lle mae angen cymorth brys neu lle mae plentyn yn wynebu risg.

Mae a wnelo risgiau mwyaf y cyfnod parhaus o ddysgu o bell â pheidio â gweld plant a phobl ifanc, a'r pryderon diogelu o ganlyniad i hynny. Gallai'r cyfyngiadau hyn gael effaith andwyol iawn ar iechyd meddwl rhieni a datblygiad a dysgu plant, a gallai hynny arwain at ddilyniant hir o broblemau a allai fod angen ymyraethau sylweddol a chostus, ac a allai, mewn nifer fach o achosion, fod yn anwrthdroadwy. Yn ogystal â hynny, bydd angen lliniaru'r effaith ar iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc, fel yr amlygwyd yn yr ymateb i arolwg *Y Coronafeirws a Fi*. Efallai na fydd rhai gwasanaethau iechyd yn gallu gweithredu ar eu lefel optimwm yn ystod lefel 4, a gallai hynny gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn, ee, cymorth iechyd meddwl.

Bydd gofal plant, ysgolion a SABau yn parhau i weithredu yn y cyfnod hyd 19 Chwefror, er y bydd hynny'n digwydd drwy ddysgu disgyblion o bell, ac eithrio plant sy'n agored i niwed, plant gweithwyr hanfodol, y dysgwyr hynny sy'n sefyll asesiadau neu arholiadau, a'r rhai sy'n mynychu ysgol arbennig.

### Arolwg Comisiynydd Plant Cymru *Y Coronafeirws a Fi* - Mai 2020

*Erthygl 28*: **Mae gan blant yr hawl i addysg**.

- Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn mwynhau peidio â mynd i'r ysgol neu fod yn well ganddynt ddysgu gartref os oeddent yn anabl.
- Roedd ymatebwyr Du Cymreig neu Brydeinig 7-11 oed yn fwy tebygol o lawer o ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn am eu haddysg nag ymatebwyr Gwyn Cymreig neu Brydeinig.
- Roedd ymatebwyr BAME yn fwy tebygol o lawer o ddweud eu bod yn poeni am fynd ar ei hôl hi gyda’u haddysg, ac yn poeni am ddechrau blwyddyn ysgol newydd neu ysgol newydd ym mis Medi.

- Roedd plant a phobl ifanc BAME yn fwy tebygol o lawer o ddweud bod cau llyfrgelloedd wedi effeithio ar eu dysgu, a hynny ar draws yr ystodau oedran. Roedd plant 7-11 oed yn fwy tebygol o lawer o ddweud bod cau canolfannau cymunedol a methu â mynd allan i'r awyr agored wedi effeithio ar eu dysgu.
- Mae anghenion digidol wedi ei gwneud hi'n anodd i rai plant gael gafael ar help a chymorth – gallai hyn fod am nad oes ganddynt gyfarpar TG neu am nad oes ganddynt ddigon o 'ddata' i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ar-lein neu wasanaethau cymorth perthnasol. Mae angen inni sicrhau nad yw teuluoedd yn wynebu anfantais oherwydd tlodi a/neu ddiffyg TG a data. Dywedodd pobl ifanc wrth Brif Weinidog Cymru eu bod yn cael eu profi a'u hasesu'n gyson yn yr ysgol a bod y pwysau yn ormod. Hefyd, gwnaethant ddweud bod y rhai hynny a oedd yn cael eu haddysgu gartref yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl.

Mae'r dull gweithredu a gynigir yn galluogi addysgu, er y bydd hynny'n digwydd o bell ac mewn modd mwy cyfyngedig i rai. Gellid dweud bod cyfyngiadau lefel 4 a dysgu o bell yn debygol o gael cael effaith andwyol sylweddol iawn ar blant anabl (os nad ydynt yn gallu mynychu eu hysgol arbennig neu gael mynediad at gymorth o bell) a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, plant sydd eisoes yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a rhai plant Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Yn gyffredinol, mae plant a phobl ifanc o blaid gallu parhau â'u haddysg a mynychu'r ysgol a'r coleg[2]. Yn ystod trafodaeth â Phrif Weinidog Cymru a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (19 Tachwedd 2020), gofynnwyd i bobl ifanc am eu barn am addysg yn ystod y cyfnod atal byr, a dyma'r hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud:

- Dim ond fel dewis olaf y dylid ystyried sesiynau ar-lein am fod rhai pobl ifanc yn teimlo'n llai hyderus i e-bostio i ofyn am help; mae'n llawer haws gwneud hynny wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth.
- Gall sesiynau ar-lein weithio'n dda iawn os cânt eu defnyddio'n briodol gyda'r cymorth cywir, ond mae achosion o athrawon yn anfon dogfennau PowerPoint neu swmp o waith at bobl ifanc heb gysylltu â nhw wedi hynny.
- Roeddent yn teimlo eu bod wedi cael llawer llai o amser i ddod i adnabod eu hathrawon felly nid oeddent bob amser yn teimlo'n gyfforddus i ofyn am help – mae'n bosibl mai dim ond am ran o hanner cyntaf y tymor y bu rhai ohonynt yn yr ysgol yn sgil gofynion hunanynysu, felly nid oeddent wedi meithrin cydberthynas ag athrawon newydd.
- Mae rhai wedi bod yn wynebu problemau tlodi digidol – nid yn unig o ran dyfeisiau ond o ran cysylltiadau Wi-Fi da hefyd
- Nid oedd cymaint o archwiliadau llesiant wedi'u cwblhau y tro hwn – roedd dogfen PowerPoint ar ymwybyddiaeth ofalgar wedi'i hanfon.
- Teimlwyd ei bod wedi'i hanfon dim ond er mwyn gwneud hynny. Mynegwyd pryderon am y rhai mewn aelwydydd nad ydynt yn iach a theimlwyd efallai y dylid galw ar y rhain hefyd.
- Ysgol arbennig ar agor drwy gydol y cyfnod clo, gan addasu eithaf tipyn a bod yn hyblyg er mwyn gwneud ein gorau glas.

Yn y tymor hwy, mae'r canlyniadau sy'n gysylltiedig ag addysg fylchog neu gyfyngedig yn barhaus ac yn creithio gan arwain at:

[2] Mae hyn yn cyfeirio at adborth a thrafodaeth cyn yr amrywiolyn newydd.

- Lai o allu neu awydd i fanteisio ar addysg bellach neu uwch;
- Llai o bosibiliadau o ran cyflogaeth;
- Lefelau tlodi uwch, a chynnydd yn y bwlch cyrhaeddiad;
- Mwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod;
- Mwy o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau;
- Iechyd gwael.

Er nad yw’r gallu i gael addysg yn lliniaru pob effaith economaidd-gymdeithasol, mae’n amlwg bod addysg o ansawdd uchel yn helpu i unioni amrywiaeth o ffactorau tymor hwy. Caiff hyn ei gydnabod yn Symud Cymru Ymlaen. At hynny, byddai cynnal amser mewn ysgolion yn helpu i fynd i’r afael â rhai o’r pryderon ynghylch cymdeithasoli, unigedd ac iechyd meddwl.

## Beth a all Llywodraeth Cymru ei wneud i dawelu meddyliau plant?

Mae plant wedi bod yn teimlo'n bryderus, ac maent yn parhau i deimlo felly, ac mae ganddynt gwestiynau am sut y bydd y cyfyngiadau yn effeithio arnyn nhw, eu teuluoedd a'u dyfodol. Mae cyfathrebu uniongyrchol â phlant a phobl ifanc wedi'i groesawu. Mae hynny'n helpu plant i ddeall pam y gallant/na allant fynd i'r ysgol, gweld eu ffrindiau ac aelodau o'r teulu, neu gymryd rhan yn eu gweithgareddau arferol. Roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r amser yr oedd Prif Weinidog Cymru wedi ei roi i egluro'r rhesymau dros wneud y penderfyniadau hyn. Er mwyn cydymffurfio â'r CCUHP, rhaid inni barhau i ofyn am eu barn drwy'r cyfnod nesaf hwn.

Gallwn ddefnyddio'r ymgyrchoedd cyfathrebu presennol, a rhwydweithiau, i rannu gwybodaeth a chyngor â rhieni, er enghraifft ymgyrch Magu plant. Rhowch amser iddo, y gellir ei defnyddio i rannu negeseuon â rhieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; ein Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta a'n Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Gofal Plant.

Gallai gwybodaeth a chyngor a rennir yn y ffordd hon gynnwys:

- Sut y gall rhieni roi tawelwch meddwl i'w plant ac egluro'r hyn sy'n digwydd
- Sut y gall rhieni gefnogi eu plant i barhau i fwynhau rhai o'u hawliau hanfodol, e.e. yr hawl i ymlacio a chwarae. O ran addysg, sianeli cyfathrebu addysg fyddai'n arwain, ond gallai rhwydweithiau rhieni ac ymgyrchoedd cyfathrebu gyfeirio, ac ati, a sut y gall plant gefnogi eu hiechyd meddwl eu hunain drwy ddulliau ar-lein.
- Nodi gwasanaethau sy'n parhau ar agor – gwasanaethau plant, gwasanaethau iechyd, ac ati, a sut i gysylltu â nhw.
- Darparu cwestiynau cyffredin hawdd eu darllen i blant a rhieni drwy ysgolion a cholegau.
- Ond mae bwlch amlwg yn y wybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc, y sianeli a ddefnyddir, amseru'r wybodaeth a roddir iddynt a'u dealltwriaeth ohoni. Rhaid inni hefyd sicrhau y caiff ein gwybodaeth a'n negeseuon eu hysgrifennu mewn ffordd y gall plant a phobl ifanc ei deall.

## Pa hawliau eraill yn CCUHP sy'n sail i'n penderfyniadau?

*Erthygl 1:* Mae gan **bob un dan ddeunaw oed** yr holl hawliau sydd yn y Confensiwn.

*Erthygl 2*: Mae'r Confensiwn yn gymwys i **bob plentyn yn ddiwahân** beth bynnag fo'i ethnigrwydd, ei ryw, ei grefydd, ei iaith, ei alluoedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

*Erthygl 3***:** Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant **weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn**.

*Erthygl 6*: Mae gan bob plentyn **hawl i fyw**. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

- Mae'r hawl i fyw yn golygu mwy na chadw'n ddiogel rhag y feirws. Mae'n ymwneud â datblygu'n gymdeithasol, yn emosiynol, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn ysbrydol.
- Mae'r gallu i chwarae a gwneud ymarfer corff yn hanfodol i ddatblygiad corfforol plentyn a'i iechyd meddwl a'i les.

*Erthygl 12*: Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Mae arolwg *Y Coronafeirws a Fi* wedi rhoi cipolwg ar farn 23,700 o blant a phobl ifanc 3-18 oed a ddewisodd ymateb i'r arolwg ym mis Mai/Mehefin 2020. Nodir rhai o'r canfyddiadau isod. Dywedodd y plant y canlynol:

- Roedd ganddynt bryderon ynglŷn â pha mor hir y byddai'r sefyllfa'n para ac ofnau y bydden nhw neu eu hanwyliaid yn dal y feirws. Roedd rhai yn teimlo eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel ar adeg pan oedd niferoedd dyddiol y marwolaethau yn lleihau ac nad oedd y feirws yn effeithio cymaint ar blant. Mae'n bosibl eu bod yn teimlo'n wahanol nawr bod y cyfraddau heintio'n cynyddu ac y ceir tarfu ar eu bywydau eto.
- Roedd plant anabl yn fwy tebygol o boeni am y feirws ac roeddent yn poeni am ei ddal.
- Y tri phrif beth yr oedd y rheolau aros gartref wedi effeithio arnynt ym marn pobl ifanc (12-18 oed) oedd 'methu treulio amser gyda fy ffrindiau' (72%), 'ddim yn gallu ymweld â pherthnasau' (59%) ac 'yr ysgol neu'r coleg ar gau' (42%)
- Nododd pobl ifanc 12-18 oed bryderon am eu haddysg: dim ond 11% o'r ymatebwyr yn y grŵp oedran hwn a ddywedodd nad oeddent yn poeni am eu haddysg. Y prif bryder a fynegwyd ganddynt oedd y byddent yn mynd ar ei hôl hi (54%). Roedd ymatebwyr BAME yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn poeni am fynd ar ei hôl hi gyda'u haddysg.
- Y prif rwystrau i ddysgu gartref oedd mynediad at ddyfeisiau electronig a phwysau yn amgylchedd y cartref. Nodwyd hefyd heriau penodol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Dim ond 17% o bobl ifanc oedd yn teimlo'n hapus bod arholiadau wedi cael eu canslo. Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o deimlo'n ansicr (51%) neu'n bryderus (18%). Hefyd, dywedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddig (6%) ac yn drist (5%).

- Dywedodd y mwyafrif o’r plant eu bod yn chwarae mwy na’r arfer (53%) gan ddisgrifio ystod eang o fathau o chwarae ar-lein ac all-lein, gan gynnwys chwarae yn yr awyr agored, chwarae dychmygol, chwarae â theganau neu gemau, chwaraeon, a chwarae creadigol. Roedd hyn yn ystod y cyfnod pan newidiwyd y rheoliadau i ganiatáu i blant fynd allan i chwarae a gwneud ymarfer corff yn fwy aml. Roedd plant BAME yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn chwarae llai.

Mae’n bwysig ein bod yn parhau i wrando ar blant a phobl ifanc a defnyddio eu hymatebion i lywio penderfyniadau allweddol sy’n effeithio arnynt. Roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi’r gallu i siarad yn uniongyrchol â Phrif Weinidog Cymru ym mis Hydref 2020 er mwyn iddo allu clywed eu barn. Dyma'r hyn y gwnaethant ei ddweud:

- Eu bod yn poeni'n fawr am gael eu hasesu a’u profi’n gyson yn yr ysgol
- Eu bod yn ei chael hi’n anodd sicrhau cydbwysedd rhwng amser ar gyfer addysg ac amser ar gyfer y teulu yn y cartref
- Eu bod yn ei chael hi’n anodd derbyn na allant gyfarfod â ffrindiau ysgol y tu allan i’r ysgol
- Eu bod am weld yr un rheolau ledled Cymru gyfan
- Eu bod am i wybodaeth fod yn hygyrch ac ar gael drwy’r sianeli cyfryngau a ddefnyddir ganddynt
- Eu bod am gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon wedi’u trefnu a mynychu clybiau ieuenctid wedi’u trefnu.

*Erthygl 13*: Mae gan blant yr hawl i **leisio eu meddyliau a'u barn** a **chael a rhannu gwybodaeth** ar yr amod nad yw’r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw nac i eraill.

- Mae pobl ifanc wedi dweud eu bod am gael rhagor o wybodaeth sy’n berthnasol iddyn nhw, beth bynnag fo’u cefndir.
- Mae angen inni sicrhau bod negeseuon yn briodol i ystodau oedran a lefelau dealltwriaeth gwahanol.
- Dylai Gweinidogion siarad yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc er mwyn clywed eu barn a’u pryderon. Dywedodd pobl ifanc wrth Brif Weinidog Cymru nad oeddent prin yn gwylio’r teledu. Gwnaethant ofyn a oedd Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethant ddweud bod digwyddiadau’r wasg yn dueddol o gael eu cynnal amser cinio pan oeddent yn yr ysgol.

*Erthygl 17*: Mae gan blant yr **hawl i wybodaeth ddibynadwy** gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

- Mae pobl ifanc wedi dweud eu bod am gael rhagor o wybodaeth sy’n berthnasol iddyn nhw, beth bynnag fo’u cefndir.
- Mae angen inni sicrhau bod ein negeseuon yn briodol i ystodau oedran a lefelau dealltwriaeth gwahanol.
- Dylem geisio cyrraedd plant a phobl ifanc drwy amrywiaeth o sianeli cyfryngau a gofyn iddynt am eu hadborth.

*Erthygl 23*: **Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth** fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

- Mae rhieni plant ag anghenion ychwanegol wedi dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi'u diystyru, a'u bod yn ansicr ynghylch ble i droi am help a chymorth.
- Roedd plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o gyfeirio at yr effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl wrth ymateb i'r arolwg.
- Mynegwyd pryderon am y gwaharddiad cyffredinol cychwynnol ar fynd allan i'r awyr agored fwy nag unwaith y dydd – penderfynodd rhai rhieni dorri'r gyfraith er mwyn sicrhau y gallent roi'r 'gofal gorau' i'w plentyn.
- Byddai negeseuon clir a syml am oddefebau posibl yn helpu teuluoedd â phlant a phobl ifanc ag ADY.

*Erthygl 26*:**Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen**.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu teuluoedd sydd mewn tlodi drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, Prydau Ysgol Am Ddim, banciau bwyd, ac ati – mae angen i hyn barhau er mwyn sicrhau na fydd yr un plentyn yn llwgu.
- Dywedodd y plant BAME a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn fwy tebygol o ddweud bod angen help arnynt i sicrhau bod gan eu teulu ddigon o fwyd. Maent yn fwy tebygol o nodi arwyddion o ansicrwydd bwyd. Mae hyn hefyd wedi'i nodi gan randdeiliaid syn gweithio'n uniongyrchol gyda'r gymuned BAME.

Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r flaenoriaeth i:

- Deuluoedd sydd mewn tlodi drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, Prydau Ysgol Am Ddim, banciau bwyd, ac ati - mae angen i hyn barhau er mwyn sicrhau na fydd yr un plentyn yn llwgu; ac wedi
- darparu cymorth i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r berthynas rhwng rhieni.

*Erthygl 27:* Mae gan blant yr **hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol.** . Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

- Mae plant a phobl ifanc BAME yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai gorlawn ac o ansawdd is, sy'n ei gwneud hi'n anos aros gartref a dysgu gartref.
- Nododd plant a phobl ifanc BAME fod y cyfyngiadau wedi effeithio ar eu gallu i gadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol, a bod prinder lle neu fyw mewn tai gorlawn wedi gwneud hyn yn anos.
- Roedd plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o nodi effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a bod cau gwasanaethau yn cael effaith fawr ar y ffordd roeddent yn teimlo.

Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r flaenoriaeth i:

- Deuluoedd sydd mewn tlodi drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, Prydau Ysgol Am Ddim, banciau bwyd, ac ati – mae angen i hyn barhau er mwyn sicrhau na fydd yr un plentyn yn llwgu.
- Plant lle ceir perygl o oedi datblygiadol drwy'r Gronfa Datblygiad Plant a'r Gronfa Dal i Fyny i blant o oed ysgol statudol.

*Erthygl 28*: **Mae gan blant yr hawl i addysg**. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

- Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn mwynhau peidio â mynd i'r ysgol neu fod yn well ganddynt ddysgu gartref os oeddent yn anabl.
- Roedd ymatebwyr Du Cymreig neu Brydeinig 7-11 oed yn fwy tebygol o lawer o ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn am eu haddysg nag ymatebwyr Gwyn Cymreig neu Brydeinig.
- Roedd ymatebwyr BAME yn fwy tebygol o lawer o ddweud eu bod yn poeni am fynd ar ei hôl hi gyda'u haddysg, ac yn poeni am ddechrau blwyddyn ysgol newydd neu ysgol newydd ym mis Medi.
- Roedd plant a phobl ifanc BAME yn fwy tebygol o lawer o ddweud bod cau llyfrgelloedd wedi effeithio ar eu dysgu, a hynny ar draws yr ystodau oedran. Roedd plant 7-11 oed yn fwy tebygol o lawer o ddweud bod cau canolfannau cymunedol a methu â mynd allan i'r awyr agored wedi effeithio ar eu dysgu.
- Mae anghenion digidol wedi ei gwneud hi'n anodd i rai plant gael gafael ar help a chymorth – gallai hyn fod am nad oes ganddynt gyfarpar TG neu am nad oes ganddynt ddigon o 'ddata' i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ar-lein neu wasanaethau cymorth perthnasol. Mae angen inni sicrhau nad yw teuluoedd yn wynebu anfantais oherwydd tlodi a/neu ddiffyg TG a data. Dywedodd pobl ifanc wrth Brif Weinidog Cymru eu bod yn cael eu profi a'u hasesu'n gyson yn yr ysgol a bod y pwysau yn ormod. Hefyd, gwnaethant ddweud bod y rhai hynny a oedd yn cael eu haddysgu gartref yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl.

Erthygl 29: Dylai addysg **ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn**. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

- Mae pobl ifanc wedi mynegi pryderon am eu dyfodol eu hunain o ran cyfleoedd addysg a chyflogaeth.
- Roedd ymatebwyr BAME yn llai tebygol o lawer o ddweud eu bod wedi bod yn dysgu sgiliau newydd nag ymatebwyr Gwyn Cymreig neu Brydeinig (ymhlith y grŵp oedran 7-11 oed), ond roeddent yn fwy tebygol o lawer o ddweud hyn nag ymatebwyr Gwyn Cymreig neu Brydeinig yn y grŵp oedran 12-18 oed.
- Roedd ymatebwyr BAME yn fwy tebygol o lawer o ddweud eu bod wedi bod yn darllen ac yn ysgrifennu (ymhlith y grŵp oedran 12-18 oed), ac yn coginio (ymhlith y grŵp oedran 7-11 oed) yn ystod y cyfnod clo.

*Erthygl 31*: **Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau**.

- Roedd ymatebwyr BAME yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod wedi bod yn gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored, ar draws y grwpiau oedran.
- Roedd plant 7-11 oed BAME yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn chwarae'n fwy aml nag o'r blaen. Dywedodd pobl ifanc wrth Brif Weinidog Cymru eu bod am gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu.
- Hefyd, gwnaethant ddweud eu bod am gymryd rhan mewn prosiectau ieuenctid wedi'u trefnu

Camau cadarnhaol i gefnogi plant a phobl ifanc tra bo ysgolion ar gau - Adroddiad Blynyddol Estyn 2019-20

Lles dysgwyr:

*Mae ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill wedi rhoi'r flaenoriaeth i les eu dysgwyr yn ystod y pandemig, gan gynnwys eu hiechyd corfforol a meddyliol.*

Rydym wedi buddsoddi £1.252m yn ychwanegol yn y gwasanaeth cwnsela ysgolion er mwyn ehangu'r ddarpariaeth a chynorthwyo'r gwasanaeth i gynnig cwnsela ar-lein yn sgil Covid-19. Yn ogystal â hynny gwnaethom greu hyblygrwydd drwy ein Grantiau Cymorth Ieuenctid i sicrhau bod gweithwyr ieuenctid yn gallu ymwneud â rhoi cymorth i ddysgwyr a oedd angen cefnogaeth er eu lles meddyliol ac emosiynol. Yn benodol, roeddent yn gallu ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o bartneriaid i ddarparu eu darpariaeth. Maent hefyd yn helpu'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o fod yn NEET.

Mae gweithwyr ieuenctid wedi parhau i weithio i gefnogi rhai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed, drwy ddefnyddio technoleg ddigidol (a thrwy chwilio am gyfarpar digidol i bobl ifanc a'u teuluoedd lle nad oedd cyfarpar ar gael) a hefyd drwy amrywiaeth eang o ddulliau eraill er mwyn cefnogi lles pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn wedi cynnwys darparu parseli bwyd, dosbarthu pecynnau dysgu a rhoi cyfle i bobl ifanc siarad ag oedolyn y maent yn ymddiried ynddo y tu allan i amgylchedd y cartref ac/neu'r ysgol.

Dysgwyr sy'n agored i niwed:

*Mae ysgolion wedi rhoi'r flaenoriaeth i les disgyblion, ac wedi ystyried sut mae'r pandemig wedi effeithio ar ddysgwyr sy'n agored i niwed yn arbennig, a sut y gallant eu cefnogi.*

Gwnaethom sefydlu ffrwd waith ar Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n Agored i Niwed, a oedd yn ymdrin â mwy nag anghenion addysgol, ac a fu'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, cymorth i deuluoedd, gwasanaethau ieuenctid, tai ac iechyd a lles emosiynol. Yr oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel, wedi'u gweld a'u clywed tra nad oedd ysgolion yn darparu addysg a thra bod lleoliadau gofal plant yn cael eu defnyddio i ddibenion eraill.

Mae bron bob ysgol wedi rhoi pwyslais penodol ar gefnogi teuluoedd â disgyblion sy'n agored i niwed.Mae llawer ohonynt wedi cryfhau eu trefniadau cyfathrebu er mwyn cael dealltwriaeth well o'r disgyblion hyn, a chanfod ffyrdd i'w cefnogi hwy a'u teuluoedd. Mewn llawer o achosion, roedd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y modd y mae'r teuluoedd hyn yn ymgysylltu â'r ysgol.

Cyhoeddwyd canllawiau penodol gennym ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais er mwyn helpu ysgolion a awdurdodau lleol i nodi'r dysgwyr hynny sydd angen cymorth fwyaf.

Allgáu digidol:

*Er gwaethaf cryn ymdrech gan ysgolion, Awdurdodau Lleol a llywodraeth ganolog i ddarparu cyfarpar a chymorth ychwanegol, cafodd lleiafrif o ddysgwyr eu rhoi dan anfantais oherwydd diffyg mynediad at gyfrifiaduron addas.*

*Mae'r cyfnod hir o wneud defnydd dwys o dechnoleg ddigidol wedi golygu bod y rhan fwyaf o ddysgwyr ac athrawon wedi gwella eu sgiliau digidol eu hunain yn sylweddol.*

*Cyn y cyfnod clo, roedd gwybodaeth am dechnoleg ddigidol mewn ysgolion unigol ac ymhlith aelodau o staff, a phrofiad o hynny, yn amrywio. Mae staff bellach yn deall mwy am ddysgu digidol ac mewn sefyllfa well i gynnig darpariaeth ddigidol neu gyfunol.*

*Roedd gan Gymru rai manteision wrth ymdrin â'r argyfwng, gan ei bod wedi hen sefydlu llwyfan ddigidol genedlaethol (Hwb) ar gyfer ysgolion. Roedd ganddi hefyd draddodiad cynyddol o gydweithio rhwng cyrff addysg, a system addysg deg sy'n canolbwyntio ar les disgyblion.*

Mae Hwb yn parhau i chwarae rhan hollbwysig er mwyn cefnogi darpariaeth addysg yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn. Mae dros 99% o ysgolion yn gwneud defnydd gweithredol o'r llwyfan.

Yn rhan o 'Cadw'n Ddiogel, Dal Ati i Ddysgu' gwnaethom ymrwymo £3m i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol mewn ysgolion a gynhelir, lle nad oedd darpariaeth ar gael eisoes gan eu hysgol neu eu hawdurdod lleol.

Dysgu Cyfunol:

Rydym wedi sefydlu Gweithgor Dysgu Cyfunol, sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol, a gofyn iddo ymdrin â materion mynediad teg at gyfleoedd dysgu yn ystod cyfnod o aflonyddwch, gan edrych yn benodol ar ddarpariaeth, datrysiadau a chanllawiau o fewn y system yng nghyswllt buddiannau ac anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu eang ac ychwanegol.

Cyfrwng Cymraeg:

*Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi bod yn gweithio'n ddiwyd er mwy helpu plant â rhieni di-Gymraeg i gynnal ac ehangu eu sgiliau iaith yn ystod y cyfnod clo.*

Buom yn gweithio'n agos â'r BBC, S4C a chyhoeddwyd preifat i ryddhau hawlfraint fel bo modd defnyddio llyfrau darllen Cymraeg, rhaglenni teledu ac ati. Cafodd canllawiau i rieni â phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac adnoddau i gefnogi dysgu anffurfiol hefyd eu darparu ar Hwb.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) ar raglen gymorth newydd wedi'i thargedu er mwyn ymdrin â'r anghenion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod Covid-19 ymhlith rhieni di-Gymraeg â phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg,

Ôl 16:

*Rhoddodd darparwyr ôl-16 drefniadau dysgu o bell ar waith ar draws yr holl raglenni a hyfforddi staff ar ddarpariaeth ar-lein.*

Rydym wedi darparu dros £8m mewn cyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn mynd i'r afael ag allgáu digidol yn y sector addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion. Gwn fod colegau a darparwyr dysgu eraill wedi ymdrechu'n aruthrol i sicrhau bod gan ddysgwyr y cyfarpar y mae arnynt ei angen er mwyn dysgu o bell. Ceir heriau ymarferol o hyd yn

gysylltiedig â chyflenwi dyfeisiau, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r sector i sicrha u y gallant gynnal model dysgu cyfunol cynaliadwy i'r dyfodol.

Yn ogystal â hynny, rydym wedi darparu £2m i'r sector addysg bellach, i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr a staff.  Mae hyn yn cefnogi ystod o weithgareddau sefydliadol a chydweithredol, gan gynnwys cynyddu cymorth cwnsela, diwrnodiau lles, hyfforddiant gwytnwch a datblygu'r staff.

Cyfathrebu:

*Cafwyd mwy o gyfathrebu â dysgwyr, rhieni, gofalwyr a theuluoedd; aeth llawer o ddarparwyr ati i adolygu eu dull o gyfathrebu â rhieni/gofalwyr y dysgwyr i ystyried sut y gellid gwneud hynny'n well.*

Dal i fyny:

*Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion wedi dechrau cyflogi aelodau ychwanegol o staff, neu gynyddu oriau staff presennol drwy ddefnyddio'r cyllid 'recriwtio, adfer a chodi safonau'. Mae llawer yn defnyddio'r adnodd hwn i fynd i'r afael â bylchau yn sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion, neu i gynyddu'r gefnogaeth emosiynol sydd ar gael. Mae llawer o ysgolion wedi sicrhau bod mwy o staff ar gael i roi cymorth ychwanegol i ddisgyblion sy'n agored i niwed, ac mae ambell ysgol wedi rhoi'r flaenoriaeth i feithrin sgiliau dysgu annibynnol y disgyblion sy'n agored i niwed.*

Rydym yn darparu £29m yn ychwanegol i ysgolion er mwyn rhoi hwb i'r gefnogaeth ar gyfer dysgwyr sydd mewn cyfnodau tyngedfennol o'u haddysg o fis Medi. Bydd 600 o athrawon ychwanegol a 300 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol yn cael eu recriwtio drwy gydol y flwyddyn ysgol nesaf, gan ddarparu cymorth ychwanegol i Flynyddoedd 11, 12 a 13 a hefyd i ddysgwyr difreintiedig a dysgwyr agored i niwed o bob oed.

Bydd y pecynnau cymorth a ddarperir ar raddfa'r ysgolion yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau gweithredu, gan gynnwys rhaglenni dysgu wedi'u personoli, mwy o gyfleoedd i hyfforddi a mentora dysgwyr yn ogystal ag amser ac adnoddau ychwanegol. Bydd y dull o rannu'r adnoddau hyn yn dibynnu'n llwyr ar angen lleol.